

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Edlogan Way,
Croesyceiliog i Gylchfan Court
Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen) (Terfyn
Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2020

The A4042 Trunk Road (Edlogan
Way Roundabout, Croesyceiliog to
Court Farm Roundabout,
Pontypool, Torfaen) (Temporary 50
mph Speed Limit) Order 2020

Gwnaed 29 Hydref 2020

Made 29 October 2020

Yn dod i rym 3 Tachwedd 2020

Coming into force 3 November 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog i Gylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 3 Tachwedd 2020.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Edlogan Way Roundabout, Croesyceiliog to Court Farm Roundabout, Pontypool, Torfaen) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2020 and it comes into force on 3 November 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog i'w chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, Torfaen, gan gynnwys cerbyttyrdd cylchredol Cylchfannau Cwmbrân a Phont-y-pŵl.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

29 Hydref 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Edlogan Way Roundabout, Croesyceiliog to its junction with the southern side of Court Farm Roundabout, Pontypool, Torfaen, including the circulatory carriageways of Cwmbran and Pontypool Roundabouts.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

29 October 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042
(CYLCHFAN EDLOGAN WAY,
CROESYCEILIOG I GYLCHFAN COURT
FARM, PONT-Y-PŴL, TORFAEN) (TERFYN
CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd o ganlyniad i rwystr diogelwch diffygiol ar gefnffordd yr A4042 rhwng Croesyceiliog a Phont-y-pŵl, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog i'w chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, gan gynnwys cerbyttffyrdd cylchredol Cylchfannau Cwmbran a Phont-y-pŵl.

Disgwylir y daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Tachwedd 2020 ac y bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4042 TRUNK ROAD (EDLOGAN WAY
ROUNDAABOUT, CROESYCEILIOG TO COURT
FARM ROUNDAABOUT, PONTYPOOL,
TORFAEN) (TEMPORARY 50 MPH SPEED
LIMIT) ORDER 2020**


The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary due to the likelihood of danger to the public due to a defective safety barrier on the A4042 trunk road between Croesyceiliog and Pontypool, Torfaen.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the northern side of Edlogan Way Roundabout, Croesyceiliog to its junction with the southern side of Court Farm Roundabout, Pontypool, including the circulatory carriageways of Cwmbran and Pontypool Roundabouts.

The Order is expected to come into force on 3 November 2020 and to remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government